10th August 2017
The eight meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group
Pontarddulais Institute

Attendees
Councillor Paul Northcote, Mawr Community Council
Cllr Robert Jones, Mawr Community Council
Cllr Kevin Griffiths, Pontarddulais Community Council
David Owen, Planning, City and County of Swansea
Cllr Wyn Morgan, Penllergaer Community Council
Sergeant Philip Morris, South Wales Police
Emma North, Planning Officer, City and County of Swansea
Tom Morris, Dawnus Construction Ltd
Alun Thomas, Highways, City and County of Swansea
Brigitte Rowlands, West Glamorgan Commoners Association
Neil Chambers, Contracts Manager, Dawnus Construction Ltd
Philip McDonnell, Chair
Paul Newman, Pontlliw & Tircoed Community Council
Tim James, Construction Project Manager, Innogy Renewables UK Ltd
Jenny Cowley, Community Liaison Officer, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. **Welcome and introductions**
The chair welcomed the group.

2. **Apologies**
No apologies had been received.

3. **Minutes of previous meeting and matters arising**
3.1 The chair asked group members to check the minutes for accuracy. There being no amendments, the minutes were agreed as a true record of the previous meeting.
3.2 The chair asked JC to provide an update on the community benefit fund, as per the action noted in point 3.2 of the 29th June minutes.
3.3 Innogy has identified an independent administrator and contracts are due to be signed. JC will notify members of the CLG as soon as possible who the fund administrator is.
3.4 Following formal appointment, innogy will work with the organisation to plan how the fund will operate and put in place governance structures. It is anticipated that a workshop will be held with local community councils to discuss project ideas.
3.5 Kathryn Harris, innogy's community investment manager, will be invited to the next meeting of the CLG to provide a further update. (AP: JC to invite KH to the next meeting).
3.6 CLG members were reassured that the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Benefit Fund planning is well under way and preparations will be in place by the time the wind farm is operational and the money is available to be spent.
3.7 Information on Community Councils considered to be in the local area of benefit, is on the innogy website. The four CC's involved in the CLG are within the local area of benefit.
3.8 Eligibility criteria will be drawn up once the independent administrator is in place.
3.9 JC continues to notify the emergency services when roads are re-opened following the completion of works, in the normal way.
3.10 BR thanked innogy/Dawnus for removing road barriers that had been causing traffic disruption, and said that the swift action had helped enormously.
3.11 Heol-Glyn-Dyfal was fully re-opened on 17th July following resurfacing, as scheduled.

3.12 The drainage works noted under 4.10 had been completed.
3.13 The reduction of levels at the Bolgoed Road site entrance is now underway, as planned.
3.14 Concern was expressed that where road widening has taken place, this has allowed for traffic to speed up, endangering sheep.
3.15 In fact, three sheep had been killed (in separate incidences) within a twelve hour period, near to Five Roads.
3.16 The Highways Department at Swansea County Council are responsible for the road and road safety, and the presence of livestock is a factor that is considered in any traffic calming assessment.
3.17 AT will notify his safety officer colleagues of this concern and share their assessment with the CLG.
3.18 Rock excavation work had restarted (minute 4.12).
3.19 NC noted that he had attended a Brynbach Road Residents' meeting, which had been useful.

4. **Update from Tim James**

4.1 As noted previously, Heol Glyn Dyfal was re-opened on 17th July.
4.2 Heol-y-Barna from A1K9 to Five Ways had re-opened on 9th August.
4.3 The enabling works is approximately 90% complete.
4.4 Levels are being reduced at the site entrance, and drainage is being installed. This work is anticipated to take a further 4-5 weeks.
4.5 Stone excavated on site is being crushed and reused on the project which is more sustainable and also saves on the number of vehicle journeys (to take the excavated stone off site).
4.6 The surfacing at the site entrance will be coordinated with the resurfacing work being done on the road between Five Roads and Heol Glyn Dyfal.
4.7 The Civil Balance of Plant contract, worth in excess of £10 million, has now been placed with Farrans, following a detailed period of negotiation.
4.8 It is anticipated that 74% of the contract value will be spent with suppliers within a 100 km radius of Mynydd y Gwair, which will bring economic benefit to the local area.
4.9 Farrans is a Northern Irish company, but they will use many locally based staff to deliver the project, many of whom have been working on the nearby Brechfa Forest West Wind Farm (in Carmarthenshire).
4.10 The Electrical Contract has been placed with Mexam.
4.11 There have been a small number of incidences of anti-social behaviour and vandalism, which are being dealt with by the local police.

5. Update from Jenny Cowley

5.1 JC and a representative from Dawnus had visited residents and knocked door-to-door, prior to the most recent road closure, and the residents are being updated directly by e-mail. The approach seems to be working, and no additional queries have been received since.
5.2 A query concerning mud and aggregate spillage in Cwmdulais had been received and dealt with, with Dawnus clearing the section. Works to complete this section of road is underway
5.3 A cattle grid and bridle gate is being installed on the access road to Cwmdulais, between Heol y Barna and the A1K9 gate, and innogy and Dawnus are working with local residents to manage this.
5.4 There is regular contact from one concerned resident in Bolgoed Road regarding a number of issues including dust and parking.
5.5 The gateman is helpfully putting a stop to any double parking at the site entrance.
5.6 Depending on the weather, roads are cleaned (swept in wet weather and dampened to reduce dust in dry weather).
5.7 As construction work at the site entrance has re-started, it is anticipated that further queries will be raised with the team, certainly for the next two-three weeks.

6. **AOB**

6.1 It is unlikely that work on the common itself will begin until mid-October.

6.2 It had been observed that the turbines on the neighbouring Mynydd y Betws Wind Farm had not been operational for around two weeks, which was puzzling, especially at a time when news reports were suggesting an increase in electricity generation from renewables, and a decrease in energy production from non-renewables

6.3 The most likely explanation is that it has been necessary to deactivate the turbines whilst Western Power Distribution (WPD) carry out routine but essential maintenance on the electricity grid network. It is understood that WPD are in the process of re-stringing this section of their network. (AP: TJ to confirm at the next meeting).

6.4 JC invited CLG members to provide feedback about how useful, or otherwise, members felt the CLG meetings were, and to comment on the level of information being shared, and whether things could be done differently and more effectively.

6.5 The Chair commented that from his independent perspective he felt the CLG was effective, not least because a number of important changes to the project and processes had happened as a direct result of feedback from CLG members heard within the meetings.

6.6 Useful changes were also being instigated following engagement and discussions with contractors and innogy team members on the ground, outside of the CLG meeting, which was also appreciated.

6.7 Broadly speaking, the CLG meetings are a useful opportunity to air complaints and get serious issues discussed, and to find solutions.

6.8 Members of the public should be encouraged to visit innogy's website where Tim James writes a regular update blog.

6.9 It was suggested that where there is a significant major change to the project, or a milestone is reached (such as a road being re-opened following closure, for example) that JC sends a short e-mail to all CLG members. (AP: JC to start e-mailing CLG members, as appropriate).

6.10 BR asked that innogy consider a request brought to her by members of the Graig Cefn Parc community for a hardship fund for Mawr, given the level of disruption that this community have faced, albeit for a temporary period, during the road closures.

6.11 Unfortunately, communities will have suffered the worst of the construction disruption before the community benefit fund starts to distribute funds. The CBF must be made available to those who have suffered the most. (AP: JC to give the Craig Cefn Parc request some thought and report back).

6.12 DO of the local authority planning department informed CLG members that planning conditions 9 and 18 (relating to site investigation and the visual appearance of the turbines) were currently being considered for discharge, and were out for consultation with statutory consultees (for example, the Coal Board).

7. **Next meeting:**

The next meeting will be held at 6 pm on Thursday 14th September, at Felindre Village Hall (subject to availability).

The meeting concluded at 6.45 pm.

10fed Awst 2017
Wythfed cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair
Yr Institiwt, Pontarddulais

Yn bresennol
Y Cynghorydd Paul Northcote, Cyngor Cymuned Mawr
Y Cynghorydd Robert Jones, Cyngor Cymuned Mawr
Y Cynghorydd Kevin Griffiths, Cyngor Cymuned Pontarddulais,
David Owen, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe,
Y Cynghorydd Wyn Morgan, Cyngor Cymuned Penllergaer,
Y Rhingyll Philip Morris, Heddlu De Cymru
Emma North, Swyddog Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Tom Morris, Dawnus Construction Ltd
Alun Thomas, Priffyrdd, Dinas a Sir Abertawe
Brigitte Rowlands, Cymdeithas Cominwyr Gorllewin Morgannwg
Neil Chambers, Rheolwr Contractau, Dawnus Construction Ltd
Philip McDonnell, Cadeirydd
Paul Newman, Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed
Tim James, Rheolwr Prosiect Adeiladu, Innogy Renewables UK Ltd
Jenny Cowley, Swyddog Cyswllt Cymunedol, Innogy Renewables UK Ltd
Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. **Gair o groeso a chyflwyniadau**
Estynnodd y cadeirydd groeso i'r grŵp.

2. **Ymddiheuriadau**
Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau wedi dod i law.

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi**
3.1 Gofynnodd y cadeirydd i aelodau'r grŵp wirio'r cofnodion i sicrhau eu bod yn gywir. Gan nad oedd diwygiadau, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod blaenorol.
3.2 Gofynnodd y cadeirydd i JC ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y gronfa budd cymunedol, yn unol â'r cam gweithredu a nodwyd ym mhwynt 3.2 o gofnodion y 29ain o Fehefin.
3.3 Mae Innogy wedi canfod gweinyddwr annibynnol ac mae disgwyl i'r contractau gael eu llofnodi'n fuan. Bydd JC yn hysbysu aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol cyn gynted â phosibl pwy yw gweinyddwr y gronfa.
3.4 Yn dilyn y penodiad ffurfiol, bydd innogy yn gweithio gyda'r sefydliad i gynllunio sut y bydd y gronfa'n gweithredu a rhoi strwythurau llywodraethu yn eu lle. Rhagwelir y caiff gweithdy ei gynnal gyda chynghorau cymuned lleol i drafod syniadau am brosiectau.
3.5 Bydd Kathryn Harris, rheolwr buddsoddi cymunedol innogy, yn cael ei gwahodd i gyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt Cymunedol i roi diweddariad pellach. (Cam gweithredu: JC i wahodd KH i'r cyfarfod nesaf).
3.6 Sicrhawyd aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol bod gwaith cynllunio yng nghyswllt Cronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair yn mynd rhagddo ers tro ac y bydd paratoadau yn eu lle erbyn i'r fferm wynt ddod yn weithredol a'r arian ar gael i'w wario.
3.7 Mae gwybodaeth am Gynghorau Cymuned yr ystyrir eu bod yn yr ardal fudd leol ar wefan innogy. Mae'r pedwar Cyngor Cymuned sydd ar y Grŵp Cyswllt Cymunedol o fewn yr ardal fudd leol.
3.8 Bydd meini prawf cymhwyster yn cael eu llunio cyntaf y bydd y gweinyddwr annibynnol yn ei le.
3.9 Mae JC yn parhau i hysbysu'r gwasanaethau brys pan gaiff ffyrdd eu hail-agor yn dilyn cwblhau gwaith, yn y ffordd arferol.
3.10 Diolchodd BR i innogy/Dawnus am gael gwared â'r rhwystrau ffyrdd a oedd wedi bod yn amharu ar draffig, a dywedodd bod y gweithredu cyflym wedi bod o gymorth mawr.
3.11 Cafodd Heol Glyn Dyfal ei hail-agor yn llwyr ar 17eg Gorffennaf yn dilyn ail-wynebu, yn unol â'r amserlen.

3.12 Yr oedd y gwaith draenio a nodwyd dan 4.10 wedi ei gwblhau.
3.13 Y mae'r gwaith o ostwng lefelau ym mynedfa safle Heol Bolgoed bellach yn mynd rhagddo, fel y cynlluniwyd.
3.14 Mynegwyd pryder, lle yr oedd gwaith lledu wedi ei wneud ar y ffordd, bod hyn wedi caniatáu i draffig gyflymu, gan achosi perygl i ddefaid.
3.15 Yn wir, yr oedd tair dafad wedi eu lladd (mewn digwyddiadau ar wahân) o fewn cyfnod o ddeuddeng awr, ger Pum Heol.
3.16 Adran Priffyrdd Cyngor Sir Abertawe sy'n gyfrifol am y ffordd ac am ddiogelwch y ffordd, ac mae presenoldeb da byw yn ffactor sy'n derbyn ystyriaeth mewn unrhyw asesiad arafu traffig.
3.17 Bydd AT yn rhoi gwybod i'w gydweithwyr sy'n swyddogion diogelwch am y pryder hwn ac yn rhannu eu hasesiad gyda'r Grŵp Cyswllt Cymunedol.
3.18 Yr oedd gwaith cloddio cerrig wedi ail-ddechrau (cofnod 4.12).
3.19 Nododd NC ei fod wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod o Drigolion Heol Brynbach, a oedd wedi bod yn ddefnyddiol.

4. **Diweddariad gan Tim James**
4.1 Fel y nodwyd yn flaenorol, cafodd Heol Glyn Dyfal ei hail-agor ar 17eg Gorffennaf.
4.2 Yr oedd Heol y Barna o'r A1K9 i Pum Heol wedi ail-agor ar 9fed Awst.
4.3 Mae'r gwaith galluogi wedi ei gwblhau oddeutu 90%.
4.4 Mae lefelau yn cael eu gostwng ym mynedfa'r safle, a draeniau'n cael eu gosod. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cymryd 4-5 wythnos eto.
4.5 Mae cerrig a gaiff eu cloddio ar y safle yn cael eu malu a'u hail-ddefnyddio ar y prosiect sy'n fwy cynaliadwy a hefyd yn arbed nifer o deithiau cerbyd (i gludo'r cerrig a gloddiwyd oddi ar y safle).
4.6 Bydd y gwaith o osod wyneb ar fynedfa'r safle yn cael ei gydlynu gyda'r gwaith ail-wynebu sy'n digwydd ar y ffordd rhwng Pum Heol a Heol Glyn Dyfal.
4.7 Mae'r contract Cydbwysedd Sifil yr Offer, sydd werth dros £10 miliwn, bellach wedi ei osod i Farrans, yn dilyn cyfnod o negodi manwl.
4.8 Rhagwelir y bydd 74% o werth y contract yn cael ei wario gyda chyflenwyr o fewn radiws o 100km i Fynydd y Gwair, a ddaw a budd economaidd i'r ardal leol.
4.9 Mae Farrans yn gwmni o Ogledd Iwerddon, ond byddant yn defnyddio llawer o staff lleol i gyflawni'r prosiect, llawer ohonynt wedi bod yn gweithio ar Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa gerllaw (yn Sir Gâr).
4.10 Mae'r Contract Trydanol wedi ei osod i Mexam.
4.11 Bu nifer bychan o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth, y mae'r heddlu lleol yn ymdrin â hwy.

5. Diweddariad gan Jenny Cowley
5.1 Yr oedd JC a chynrychiolydd o Dawnus wedi ymweld â thrigolion a chnocio o ddrws i ddrws cyn i'r ffordd gael ei chau ddiwethaf ac mae'r trigolion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn uniongyrchol drwy e-bost. Mae'r dull hwn i weld yn gweithio, ac nid oes unrhyw ymholiadau ychwanegol wedi eu derbyn ers hynny.
5.2 Yr oedd ymholiad ynghylch gollwng mwd ac agregau yng Nghwmdulais wedi ei dderbyn a'i ddatrys, gyda Dawnus yn clirio'r ardal. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau'r rhan hon o'r ffordd.
5.3 Mae grid gwartheg a gât meirch yn cael eu gosod ar y ffordd fynedfa i Gwmdulais, rhwng Heol y Barna a gât A1K9, ac mae innogy a Dawnus yn gweithio gyda thrigolion lleol i reoli hyn.
5.4 Mae un preswylydd pryderus yn Heol Bolgoed yn cysylltu'n rheolaidd ynghylch nifer o faterion yn cynnwys llwch a pharcio.
5.5 Mae'r gât-geidwad yn cynorthwyo drwy roi diwedd ar unrhyw barcio dwbl ym mynedfa'r safle.
5.6 Caiff ffyrdd eu glanhau, gan ddibynnu ar y tywydd (eu hysgubo mewn tywydd gwlyb a'u gwlychu mewn tywydd sych i leihau llwch).
5.7 Gan fod gwaith adeiladu wedi ail-ddechrau ym mynedfa'r safle, rhagwelir y bydd ymholiadau pellach yn cael eu codi gyda'r tîm, yn sicr am y ddwy neu dair wythnos nesaf.

6. **Unrhyw Fater Arall**

6.1 Mae'n annhebygol y bydd gwaith ar y comin ei hun yn dechrau hyd ganol mis Hydref.

6.2 Sylwyd nad oedd y tyrbinau ar Fferm Wynt gyfagos Mynydd y Betws wedi bod yn weithredol am oddeutu pythefnos, a oedd yn achosi penbleth, yn enwedig ar adeg pan oedd adroddiadau newyddion yn awgrymu cynnydd mewn cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy, a gostyngiad o ran cynhyrchu ynni o ffynonellau nad oedd modd eu hadnewyddu.

6.3 Yr esboniad mwyaf tebygol yw y bu angen analluogi'r tyrbinau tra yr oedd Western Power Distribution (WPD) yn cynnal gwaith cynnal a chadw arferol ond hanfodol ar rwydwaith y grid trydan. Deellir fod WPD yn y broses o ail-osod llinellau yn y rhan hon o'u rhwydwaith. (Cam gweithredu: TJ i gadarnhau yn y cyfarfod nesaf).

6.4 Estynnodd JC wahoddiad i aelodau'r Grŵp Cyswllt Cymunedol ddarparu adborth ynghylch pa mor ddefnyddiol, neu fel arall, yn eu barn hwy oedd cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt, ac i wneud sylwadau ar lefel y wybodaeth a oedd yn cael ei rhannu, ac a oedd modd gwneud pethau'n wahanol ac yn fwy effeithiol.

6.5 Gwnaeth y Cadeirydd sylw bod y Grŵp Cyswllt Cymunedol yn effeithiol yn ei farn ef, yn bennaf oherwydd bod nifer o newidiadau pwysig i'r prosiect a'r prosesau wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i adborth gan aelodau'r Grŵp, a oedd wedi'i fynegi yn y cyfarfodydd.

6.6 Yr oedd newidiadau defnyddiol hefyd yn cael eu rhoi ar waith yn dilyn ymgysylltu a thrafodaethau gyda chontractwyr ac aelodau tîm innogy ar lawr gwlad, y tu allan i gyfarfodydd y Grŵp, a oedd hefyd yn cael ei werthfawrogi.

6.7 Yn gyffredinol, mae cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Cymunedol yn gyfle defnyddiol i wyntyllu cwynion a sicrhau bod materion difrifol yn cael eu trafod, a chanfod atebion.

6.8 Dylid annog aelodau'r cyhoedd i ymweld â gwefan innogy lle y mae Tim James yn ysgrifennu blog diweddaru rheolaidd.

6.9 Awgrymwyd, lle yr oedd newid mawr sylweddol i'r prosiect, neu garreg filltir yn cael ei chyrraedd (er enghraifft, ffordd yn cael ei hailagor yn dilyn ei chau) y dylai JC anfon e-bost byr i holl aelodau'r Grŵp Cyswllt. (Cam gweithredu: JC i ddechrau e-bostio aelodau'r Grŵp Cyswllt, fel bo'n briodol).

6.10 Gofynnodd BR i innogy ystyried cais a ddygwyd i'w sylw gan aelodau o gymuned Craig Cefn Parc am gronfa galedi ar gyfer Mawr, gan ystyried lefel yr ymyrraeth yr oedd y gymuned hon wedi'i hwynebu, er mai am gyfnod dros dro y bu hynny, yn ystod cau'r ffyrdd.

6.11 Yn anffodus, bydd cymunedau wedi dioddef y gwaethaf o'r ymyrraeth o ganlyniad i'r gwaith adeiladu cyn y bydd y gronfa budd cymunedol yn dechrau dosbarthu'r arian. Rhaid i'r Gronfa Budd Cymunedol fod ar gael i'r rhai sydd wedi dioddef fwyaf. (Cam gweithredu: JC i roi ystyriaeth i gais Craig Cefn Parc ac adrodd yn ôl).

6.12 Hysbysodd DO o adran gynllunio'r awdurdod lleol aelodau'r Grŵp Cyswllt fod amodau cynllunio 9 ac 18 (yn ymwneud ag archwilio safle ac ymddangosiad gweledol y tyrbinau) wrthi'n cael ei hystyried a bod ymgynghori'n mynd rhagddo gydag ymgynghoreion statudol (er enghraifft, y Bwrdd Glo).

7. **Y Cyfarfod Nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 6 pm dydd Iau 14eg Medi, yn Neuadd Bentref Felindre (ar yr amod ei bod ar gael).

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45pm.